| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **16 Chwefror 2016** |
| **TEITL** | **Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - meysydd Plant a Phobl Ifanc, Gofal, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015-16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Plant a Phobl Ifanc, Gofal, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol sy'n rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Y Cynghorydd Mair Rowlands
Y Cynghorydd Gareth Roberts
Y Cynghorydd Peredur Jenkins
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y cynllun strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Mae holl dimau gwasanaeth y Cyngor wedi dechrau adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac yn ystyried a oes lle i wella.  Mae'r aelodau Cabinet unigol sy'n atebol am berfformiad y timau gwasanaeth wedi bod yn herio pwrpas timau gwasanaeth yn eu cyfarfodydd adrodd perfformiad gyda'r adrannau.

Felly mae'r rhan fwyaf o dimau gwasanaeth y Cyngor wedi adolygu eu pwrpas i roi ffocws ar y dinesydd ac wedi adnabod mesurau addas i'r pwrpas, er bod rhai mesurau'n parhau i gael eu datblygu.  Gweler adroddiad llawn ar y mesurau yn Atodiad 2.

3.2 Cyflwynir diweddariad ar adolygiadau dwys Ffordd Gwynedd yn Atodiad 1, sydd yn crynhoi'r buddiannau o roi'r cwsmer yn ganolog wrth ddarparu gwasanaeth. Mae tystiolaeth yn dangos bod y cwsmer yn cael beth maent eu hangen yn gynt, sydd hefyd yn arwain at effeithlonrwydd i'r gwasanaeth.

3.3 Mae'r adroddiadau ar brosiectau'r cynllun strategol yn symud ymlaen fel y cynlluniwyd gyda'r rhan fwyaf o'r prosiectau a gyflwynwyd yma. Mae rhai elfennau o brosiectau meysydd Gofal a Chyngor Effeithiol ac Effeithlon yn llithro, ond mae nifer o brosiectau'r cynllun strategol hefyd wedi cwblhau gwaith eleni yn fuan:

- G6 Frondeg
- P3 Ysgol Bro Llifon
- P4 Hafod Lon Newydd
- P6 Glancegin
- I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

3.4 Mae'r adroddiad yn cynnwys perfformiad blwyddyn addysgol 2014-15 yn faes Plant a Phobl Ifanc gyda chanlyniadau haf 2015 bellach wedi'u cyhoeddi. Gellir nodi fod canlyniadau Gwynedd eleni yn gadarnhaol, yn enwedig yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, lle rydym y gorau ar lefel Cymru ar dri allan o'r pum mesur.

3.5 Mae mesurau y maes Gofal yn awgrymu perfformiad da ar y cyfan, ond mae diffygion cywirdeb data rhai mesurau yn destun pryder.

3.6 Derbyniwyd dros 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad toriadau Her Gwynedd a chynhaliwyd gweithdai i drafod y toriadau gyda'r aelodau ar 15 a 22 Ionawr. Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 16 Chwefror mewn paratoad i benderfyniad yn y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth.

## 4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015-16 yn y meysydd Plant a Phobl Ifanc, Gofal, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol.

Er mwyn atgoffa aelodau, mae geiriad y cynllun strategol wedi ei nodi mewn glas.

## 4.1 Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y Cynghorydd Gareth Roberts

**G1 Her Gofal**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy gydweithredu'n gymunedol.**

Mae'r rhaglen gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn barod wedi dechrau gyda'r grwpiau budd-ddeiliaid gwahanol. Bydd y cyfathrebu yn cychwyn yn gyhoeddus yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Mae'r rhaglen gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn barod ar waith gyda'r grwpiau budd-ddeiliaid gwahanol. Mae'r Cynghorydd Gareth Roberts wedi nodi ei fod yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol o ran elfennau llesiant y prosiect yn y flwyddyn newydd ac wedi gofyn am gael rhaglen waith mewn lle yn manylu pryd a lle fyddwn yn dechrau trafodaethau gyda chymunedau. Gellir adrodd fod y gwaith yn barod wedi dechrau o ran trafod gyda chymunedau.

**G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn yr achos yma) yn gwbl ganolog.**

Mae'r prosiect hwn yn cyflawni yn unol â'r disgwyl o ran y cerrig milltir a'r amserlen, ond mae'r Aelod Cabinet wedi rhoi her i'r amserlen wreiddiol a bydd arweinydd y prosiect yn ystyried hyn. Mae risgiau wrth reswm o fod yn ceisio gyrru newid diwylliannol fel hwn yn rhy gyflym ond creda'r Aelod Cabinet y dylid o leiaf ystyried y posibiliadau.

Mae ein trigolion bellach yn gweld buddion yn y ffordd newydd o weithio a dyma sylwadau Mr E sy'n 98 mlwydd oed:

*"Mae gwasanaethau'r Sir heb ei ail faswn i'n ddweud a dim seboni ydi hyn, dwi'n dweud y gwir. Dwi'n gwybod pa mor bwysig ydi'r cyswllt unigol i gadw pobl yn hyderus i gario ymlaen i fyw eu bywydau fel y maen nhw eisiau byw. Ac os na fedrant nhw neud, bod 'na rywun yno i roi ychydig o gefn a chyngor - yn hytrach na gorfod mynd o un i'r llall, a ddim yn gwybod yn union pwy ydi pwy a pwy sy'n gyfrifol am be".*

Sgil effaith canolbwyntio ar y gofal gorau posib i'r defnyddiwr a cheisio cyflawni'r hyn sydd wirioneddol yn cyfri, ydi ein bod yn cychwyn gweld lleihad yn y gofal traddodiadol a gomisiynir e.e. Gofal Cartref.

**G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Os am lwyddo gyda'r newid sylweddol a newid meddylfryd a diwylliant yr adran, mae'n hanfodol bod strwythur staffio'r adran yn addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol. Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ar ail-strwythuro'r adran.**

Mae'r cam cyntaf wedi ei gwblhau (Haen Uwch Reolaeth) ond mae llithriad i gyflawni'r ail ran, sydd wrth gwrs yn creu ansicrwydd i staff. Yn anffodus, ni ellir rhoi'r trefniadau terfynol ar gyfer cwblhau cam dau (Haen Rheolwr Tîm) y strwythur oherwydd dylanwadau allanol.

**G4 Strategaeth Letya Pobl Hŷn**

**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid**

Hydera'r Aelod Cabinet y byddwn wedi sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn erbyn diwedd Mawrth 2016. Bydd y prosiect yn cyflawni yn unol â'r amserlen sydd wedi ei nodi yn y cynllun strategol.

**G5 Tai Gofal Ychwanegol (Porthmadog)**

**Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**

Adroddwyd yn Adroddiad Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - 3 Tachwedd 2015 fod yr amserlen wedi ymestyn rhywfaint o ran y prosiect hwn ac mae'n debygol y bydd y prosiect yn cwblhau yn ystod tymor yr Hydref 2017. Er hyn rhagwelir cyflawni o fewn yr amserlen a nodwyd yn y cynllun strategol.

**G6 Frondeg**

**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**

Yn Ionawr 2016, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghoriad ffurfiol, penderfynwyd datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar safle Frondeg, a dod â defnydd presennol yr adeilad i ben unwaith y byddai'r datblygiad newydd ar gael. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y misoedd nesaf er mwyn dechrau'r broses o ddatblygu model llety newydd.

**G7 Darpariaeth Fewnol**

**Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut ryda'n ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaeth gofal) a gweithredu ar hynny.**

Er bod opsiynau dechreuol wedi eu trafod gydag aelodau Cabinet, mae'r prosiect yn parhau i fod yn ddatblygol ei natur. Mae gwaith pellach wedi ei gomisiynu a bydd hyn o bosib mewn amser yn arwain at osod cerrig milltir ychwanegol yn seiliedig ar raglen waith.

**Materion eraill o bwys yn y maes Gofal**

**'Pryderon Cynyddol' a sefydlogrwydd ein Cartrefi Nyrsio –** Mae'r sefyllfa gyfredol yn hynod bryderus. Mae ein swyddogion, ar y cyd hefo swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn ceisio lliniaru risgiau dros y misoedd diwethaf. Mae nifer o resymau gwahanol pam fod pryder ynglyn â sefydlogrwydd ein Cartrefi Nyrsio. Rhestrir isod rai ohonynt:

- Diffyg nyrsys yn gyffredinol a lefelau staffio i gyfarch anghenion preswylwyr sydd at anghenion dwys
- Anghysondebau mewn ymarfer
- Digwyddiadau sydd yn destun i ystyriaeth i drefn Amddiffyn Oedolion Bregus Protection of Vulnerable Adults (POVA)
- Diffyg arweinyddiaeth
- Diffyg hyfforddiant - neu gyraeddiadau hyfforddiant gwan mewn meysydd allweddol

Er ei bod yn gyfnod hynod anodd, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ymateb i amgylchiadau mor bwrpasol â phosib fel y maent yn datblygu, ond hefyd yn ceisio deall sut a pham ein bod yn y sefyllfa sydd ohoni. Bydd angen wrth reswm dysgu o'n profiadau, ond hefyd mae angen datblygu'n strategol ddatrysiadau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae gan y Cyngor rôl i chwarae o ran gyrru'r agenda, ond bydd yn rhaid gwneud hynny ar y cyd gyda phartneriaid allweddol eraill megis y Bwrdd Iechyd, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae trafodaethau yn parhau o fewn y trefniadau rhanbarthol, gan gynnwys trafodaethau pwysig gydag Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Llywodraeth Cymru.

Mae ein ffocws wrth gwrs ar ddiogelu a sicrhau ansawdd bywyd ein trigolion ac er mwyn gwneud hyn mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio'n effeithiol ac yn cefnogi ein gilydd fel bo angen. Bydd cydweithio ar lawr gwlad ac ar lefel strategol hefo'r Bwrdd Iechyd yn allweddol i unrhyw lwyddiant yn y maes.

**Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd -** Yn dilyn trafodaethau diweddar a gafwyd ynglŷn â'r gweithlu o ran diffyg meddygon, nyrsys a gofalwyr – gwnaed cais llwyddiannus ar y cyd i'r Bwrdd Gwasanaethau lleol (BGLl) i wneud darn o waith i weld sut all holl bartneriaid y maes gyfrannu i gyfarch y broblem dan sylw.

Yn ogystal â hyn, mae darn arall o waith wedi ei gomisiynu er mwyn rhoi sylw penodol i brosesau gweithredol 'i mewn' ac 'allan' o Ysbyty Gwynedd. Byddwn yn bwrw ati i ddefnyddio methodoleg Ffordd Gwynedd gyda chefnogaeth arbenigwyr perthnasol er mwyn ceisio sicrhau cyswllt naturiol gyda'r gwaith cymunedol sydd yn weithredol yn Ysbyty Alltwen. Mae'r fethodoleg wrth gwrs rhoi'r cwsmer yn gwbl ganolog i'n gwasanaethau a thrwy hyn yn darparu cyfleoedd i wella effeithlonrwydd. Byddai datblygu a phrofi'r fethodoleg yn Ysbyty Gwynedd, ar y cyd â'r gwaith cymunedol yn Alltwen, yn rhoi blas gwirioneddol i ni o sut allai'r 'System Iechyd a Gofal' weithio i'r dyfodol.  Nid yn unig mae hyn yn arloesol ac yn torri tir newydd o fewn y sector, ond mae hefyd gyfle gwirioneddol gyffrous i roi gwell gwasanaeth i'n trigolion mewn cyfnod ariannol anodd iawn.  Mae'r ddwy ffrwd gwaith dan sylw yn ogystal yn ymateb ac yn cyfarch argymhellion adroddiad y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau - O'r Ysbyty i'r Cartref (Rhan 2).

## 4.2 Plant a Phobl Ifanc

Y Cynghorydd Gareth Thomas

**P1 Strategaeth Ansawdd Addysg**

**Pwrpas y prosiect hwn yw paratoi a datblygu Strategaeth Ansawdd Addysg fydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y Sir.**

Mae strategaeth ddrafft wedi'i chyflwyno yn nodi beth sydd angen sylw, a beth yw'r camau nesaf o ran gyrru'r agenda, sef gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol, a thrawsnewid y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad.

Mae'r strategaeth hefyd yn nodi'r angen i godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) trwy dargedu adrannau sy'n  tanberfformio; codi safonau mathemateg, codi safonau Saesneg, a chynyddu'r canran o'r disgyblion sy'n ennill Trothwy Lefel 2+ (dysgu sydd gyfwerth a phump TGAU A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg) i'r delfryd o 70%. Fel isafswm, mae'r cynlluniau gwella addysg yn mynd i ffocysu ar sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn ein hysgolion, addysgu cyson da ym mhob ysgol, perfformio yn yr 50% uchaf o leiaf o blith ysgolion tebyg, gan anelu at y 25% uchaf a dim un o ysgolion Gwynedd i fod yng nghategorïau statudol Estyn.

Mae angen gwaith ar ddatblygu tracio a thargedu effeithiol, yn benodol ar yr ysgolion uwchradd, er mwyn cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n cyrraedd Trothwy Lefel 2+.  Mae manyleb wedi'i rhoi at ei gilydd rhwng Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gwynedd (GwE) a'r awdurdod, sydd yn nodi'r mesurau sydd angen eu gwella a nodi'n glir beth yw ein huchelgais erbyn haf 2016.

**P2 Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau.**

Ddiwedd mis Tachwedd, derbyniodd yr Adran Addysg gopi o'r adroddiad drafft ar amodau arweinyddiaeth yng Ngwynedd. Bydd y Cabinet yn ystyried yr argymhellion sy'n rhan o'r adroddiad yn ystod y misoedd nesaf

Yn ogystal, mae gwaith da wedi'i wneud o ran sicrhau hyfforddiant gorfodol ym meysydd arwain a rheoli. Mae hyfforddiant addysgu ac asesu wedi'i ddarparu i benaethiaid, gan osod gwaelodlin o ran disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn ysgol bresennol a thu hwnt. Er hyn, mae'n deg dweud bod gwaith pellach i'w wneud o ran hyfforddiant arweinwyr y dyfodol.

Rydym yn awyddus i nodi'r arfer dda sydd wedi digwydd hefo 'Cynllun y Moelwyn', sef cynllun peilot o gydweithio strategol rhwng ysgolion y dalgylch (cynradd ac uwchradd). Mae wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac wedi derbyn sylw a chanmoliaeth gan Y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Genedlaethol o ganlyniad i hynny.

**Rhaglen creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol**

**Pwrpas y rhaglen yma yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd cyflawni'r rhaglen yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc.**

Mae'n bwysig ystyried deilliannau'r rhaglen yma yn y tymor hir, a'r ffordd ymlaen gyda'r rhaglen ôl-2018.

**P3 Ysgol Bro Llifon**

**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol newydd yn sgil penderfyniad y Cyngor i gau ysgolion y Groeslon, Carmel a Bron y Foel.**

Mae'r prosiect yma wedi'i gwblhau yn llwyddiannus.

**P4 Hafod Lon Newydd**

**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor a hynny yn wyneb y penderfyniad i gau'r Ysgol Hafod Lon bresennol.**

Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r gwaith adeiladu, ac mae'n parhau yn fwriad i agor yn nhymor yr hydref 2016. Bydd yr ysgol newydd yn cynnig lle i 100 o blant 3-19 oed er mwyn gwasanaethu plant Meirionnydd a Dwyfor yn benodol. Bydd yr ysgol newydd yn cynnig adnoddau modern pwrpasol ar gyfer anghenion y disgyblion, megis ystafelloedd synhwyrau, pwll hydrotherapi a mannau chwarae gyda thirlunio gwych y tu allan. Yn ogystal, darperir 10 ystafell wely yn yr Uned Breswyl ac Egwyl Fer ar gyfer holl blant Gwynedd. Bydd y ddarpariaeth yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr iawn i gefnogi teuluoedd sydd â phlant gydag anghenion dysgu ychwanegol am y tro cyntaf yng Ngwynedd.

**P5 Dalgylch Y Gader**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.**

Mae contractwr wedi'i benodi ar gyfer safle Rhydymain ac mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen. Mae cabanau dros dro wedi'u gosod yn Llanelltyd ac yn Ysgol Gynradd Dolgellau a'r trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer gwacau'r adeiladau erbyn Nadolig 2015. Disgwylir bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2017.

Ni lwyddwyd i benodi pennaeth i'r ysgol newydd yn ddiweddar, ac o ganlyniad i hynny, mae'r Adran Addysg wedi edrych ar dargedu penaethiaid er mwyn sicrhau recriwtio yn llwyddiannus. Cafodd y swydd ei hail hysbysebu ym mis Rhagfyr, a llwyddwyd i benodi pennaeth newydd sy'n cychwyn ym mis Ebrill 2016.

**P6 Glancegin**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen.**

Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, felly mae'r £5.11 miliwn yn ei le ar gyfer adeilad newydd Ysgol Glancegin. Mae gwaith tendro a chynllunio yn mynd yn ei flaen er mwyn sicrhau bydd yr adeilad newydd yn barod erbyn Medi 2017. Disgwylir i'r adeilad newydd gynnig gofod addysgu da ar gyfer anghenion disgyblion a staff mewn ardal ddifreintiedig yng Ngwynedd.

**P7 Dalgylch Y Berwyn**

**Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu Gydol Oes Cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn.**

Mae cam olaf yr achos busnes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Disgwylir bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2017. Yn dilyn penderfyniadau'r Cabinet, mae'r broses o gwblhau'r gweithrediadau statudol gofynnol wedi cychwyn o dan reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a gynhelir er mwyn sefydlu ffederasiwn rhwng tair ysgol wledig dalgylch y Berwyn. Bydd y broses o ymgysylltu ac ymgynghori yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf.

**P8 Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

**Pwrpas y prosiect yma fydd trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Yn dilyn cyfnod dwys o ymgysylltu yn Medi a Hydref, mae'r tîm wedi diweddaru'r strategaeth, ac wedi addasu'r cynllun busnes a'r rhaglen waith. Mae'r gwaith hefyd wedi cychwyn ar fodelu gwahanol opsiynau ar gyfer cyflwyno'r Tîm Integredig, gan edrych yn benodol ar ddosbarthiad y cymorthyddion a rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgolion.

Mae sawl newid i'r ddarpariaeth wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf, yn cynnwys peidio cynnwys gefnogaeth 3* o'r newydd ers 1 Medi 2015. Mae cefnogaeth 3* yn ddarpariaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd fel arfer ag anhawsterau sylweddol, ond heb fod o fewn y canllawiau statudol. O ganlyniad mae gofyn i ysgolion fod yn fwy hyblyg o ran y defnydd o'u cyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr interim. Mae'r tîm hefyd wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol pob ysgol ar y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chreu pecyn e-ddysgu cynhwysfawr i gefnogi hyn. Rydym hefyd wedi adolygu'r defnydd o'r meini prawf mynediad a gadael y Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu (llefaredd a rhifedd) sydd yn golygu ein bod yn gallu targedu'r plant cywir yn well.

Y Cynghorydd Mair Rowlands

**P9 Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd.**

**Pwrpas y prosiect yw sicrhau trosolwg o'r agenda ataliol yn y Sir, gan weithio yn amlasiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud y pethau cywir yn y lle cywir.**

Ers mis Medi, mae'r gwaith ar y rhaglen yma wedi symud yn ei flaen yn dda, gyda nifer o'r cerrig milltir a osodwyd wedi'u cyrraedd. Rydym yn hyderus bydd gennym sail tystiolaeth gryf i gyfeirio gwaith ymyrraeth gynnar at y pethau cywir erbyn diwedd mis Mawrth 2016.

Mae'r gwaith mapio gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd bregus, ar y cyd gydag asiantaethau allanol megis iechyd a'r sector gwirfoddol wedi'i gwblhau.

Wrth ddechrau dadansoddi'r gwaith mapio a'r anghenion, mae bylchau yn bodoli mewn meysydd penodol lle byddai'n fuddiol i ni ymyrryd yn gynt, neu ystyried cyfeirio darpariaeth benodol. Adroddir ar brif ganfyddiadau ac argymhelliad y gwaith yma yn yr adroddiad nesaf. Er mwyn rhoi blas o'r materion sy'n codi, manylir ar rai isod:

**Llefaredd plant o dan 3 oed** – mae tystiolaeth yn dangos bod plant yn cyrraedd ysgol gyda phroblem llefaredd, ac mae hyn yn amharu ar eu datblygiad i'r dyfodol, o ran dysgu ac ymddygiad. Mae angen targedu plant yn y blynyddoedd cynnar cyn iddynt gyrraedd yr ysgol er mwyn atal y broblem rhag gwaethygu.

**Pobl ifanc yn eu harddegau** – mae tystiolaeth yn dangos bod ein pobl ifanc ni yn gynyddol yn dioddef o broblemau iechyd meddwl.

**Materion rhiantu ac ymddygiad** – mae'r rhain yn faterion sydd angen eu targedu yn y blynyddoedd cynnar, er mwyn ceisio atal y broblem rhag gwaethygu yn ystod bywyd y plentyn.

**Aelwydydd incwm isel a rhieni ddim mewn gwaith** – mae llawer iawn o'r teuluoedd sydd yn cael cymorth gan yr Tîm Gyda'n Gilydd yn cynnwys aelwydydd incwm isel (cyflog o dan £287 yr wythnos), neu rieni ddim yn gweithio o gwbl.

Mae'n deg dweud bod nifer o'r materion yma yn rhai sy'n cyffwrdd gyda gwaith ar draws y Cyngor yn cynnwys yr Adran Addysg, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r agenda trechu tlodi. Bydd trafodaeth fuan gyda'r adrannau perthnasol am y mathau o ymyraethau sydd eu hangen. Bydd gwaith ar y Strategaeth Ymyrraeth Gynnar yn cychwyn ddiwedd mis Mawrth 2016.

Un o'r heriau sy'n ein hwynebu gyda'r rhaglen yma yw'r datganiad diweddar am y toriad yng nghyllideb Teuluoedd yn Gyntaf o 11.67%. Bydd hwn yn fater i'w ystyried wrth ddatblygu'r rhaglen hon yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd angen ail-ystyried a blaenoriaethu adnoddau Teuluoedd yn Gyntaf i'r dyfodol. Mae'r Cabinet hefyd yn ystyried datblygu a chryfhau model Tîm o Amgylch y Teulu (h.y. Tîm Gyda'n Gilydd), sydd wedi bod yn ffordd o weithio hynod o lwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae yna her fawr yn wynebu'r gwasanaethau prif lif o ran lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaeth statudol.

## 4.3 Diogelu

Y Cynghorydd Mair Rowlands

**D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu**

**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.**

Mae'r rhaglen waith wedi'i chyflwyno i'r Aelod Cabinet ym mis Medi ac ers hynny mae'r Grŵp Gweithredol wedi bod yn gweithredu ar y rhaglen waith honno. Mae'r Aelod Cabinet yn gyfforddus bod gwaith yn symud yn ei flaen o ran yr elfennau mesur effaith a chodi ymwybyddiaeth o'r maes diogelu. Fel llawer i brosiect, mae'n debyg mai'r elfen o fesur effaith sydd fwyaf heriol. Wedi dweud hynny, rhagwelir y bydd modd, am y tro cyntaf eleni, i gymharu gwybodaeth gyda'r flwyddyn ddiwethaf. Mae awdit dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth diogelu yn cael ei gynnal gan yr Uned Archwilio sydd yn mesur lefelau ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor, ac ar draws grwpiau o swyddi gwahanol. Disgwylir y bydd yr adroddiad yn barod yn ystod mis Mawrth 2016.

Mae'r prosiect hwn wrth gwrs yn ddilyniant o waith Panel Strategol Diogelu dros y blynyddoedd diwethaf, a chyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Tachwedd a oedd yn cynnwys crynodeb o'r gwaith yn ystod 2014-15. Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran adolygu polisïau a chyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Diogelu Corfforaethol i'r Cabinet yn Nhachwedd 2015.

**D2 Diogelu Plant a Phobl Ifanc**

**Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu i yn y maes plant a phobl ifanc.**

Cyflwynwyd rhaglen waith ym mis Medi ac mae opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd o ran defnyddio adnodd arbenigol yn y maes 'Ecsploetio Plant yn Rhywiol'. Mae'r amserlen wedi llithro rhyw gymaint sy'n golygu na fydd y prosiect yn cyrraedd rhai o'r cerrig milltir a osodwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, nid yw'r Aelod Cabinet yn bryderus bod llithriad o ychydig wythnosau yn mynd i gael effaith ar gyflawni pwrpas y prosiect o fewn yr amserlen. Gellir cadarnhau fod y swyddogion a'r aelodau Cabinet perthnasol wedi cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig.

Yr ail ran o'r prosiect yma yw'r gwaith o gryfhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes addysg. Mae rhaglen waith glir wedi'i llunio a Swyddog Diogelu wedi'i phenodi i'w weithredu. Er mwyn cynnal awdit blynyddol o'r trefniadau diogelu, mae'r Swyddog Diogelu yn ymweld ag ysgolion i wirio gweithdrefnau a pholisïau diogelu a chofnodi ac mae'r gwaith yma wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf. Yr amcan yma yw sicrhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu cadarn yn ysgolion Gwynedd. Hefyd, mae rhaglen hyfforddiant lefel 1 a 2 wedi'i llunio ar gyfer staff. Mae'r Adran Addysg yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda staff yn hytrach nag hyfforddiant ar-lein.

**D3 Diogelu oedolion bregus**

**Pwrpas y prosiect yma yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogel o fewn y maes oedolion.**

Mae'r prosiect yma yn anelu i wella trefniadau diogelu yn barhaus o fewn y maes oedolion. Mae gan yr adran bellach drosolwg strategol o holl argymhellion sydd dan sylw yn adroddiadau 'Lle i Alw'n Gartref', Adroddiad Winterbourne ac Adroddiad Jasmine. Mae'r trosolwg thematig dan sylw yn golygu nad oes dyblygu yn digwydd a'i fod yn haws cadw golwg ar gyflawni'r argymhellion. Bydd gweithredu'r rhaglen waith yn broses hir dymor o gyd-weithio i addasu a monitro ymarfer yn rheolaidd. Rhagwelir y bydd gweithredu'r rhaglen waith yn parhau yn ystod y flwyddyn ac yn cael ei ddatblygu'n barhaus.

## 4.4 Y Gymraeg

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

**I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg**

**Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.**

Erbyn hyn fe ddylem fod mewn sefyllfa lle mae'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol wedi ei chwblhau mewn pedair cymuned. Nod y Fframwaith yw cynorthwyo grwpiau lleol i adnabod anghenion datblygu a gweithredu o blaid y Gymraeg yn lleol.

Mae'r fframwaith wedi ei chwblhau ar gyfer cymunedau Bangor, Porthmadog a Dolgellau a chynlluniau gweithredu wedi eu cynhyrchu. Yn ogystal, mae cyfleoedd i rymuso'r gymuned wedi eu hadnabod ac yn weithredol ym Mhwllheli. Bu oedi cyn dechrau'r gwaith yn Nhalysarn oherwydd bwriad gwreiddiol i weithio hefo cymuned arall ac o ganlyniad nid yw'r fframwaith yn debygol o gael ei chwblhau hyd ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Er y nodir fod ychydig o lithriad yn yr amserlen ar gyfer gweithredu rhai o'r elfennau gwaith, byddwn yn cyflawni'r mwyafrif o'r hyn yr ydym wedi ei nodi ar gyfer y flwyddyn.

**I2 Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus**

**Creu diffiniad o weithle dwyieithog y byddai'r Cyngor ac wedi hynny, Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd a Môn yn ei fabwysiadu fel diffiniad safonol er mwyn sicrhau eglurder a safon gyson o wasanaethau cyhoeddus dwyieithog.**

Erbyn hyn mae'r Aelod Cabinet wedi cytuno ar ddiffiniad diwygiedig ar gyfer y prosiect (isod), sy'n cyfarch sut y gellir hyrwyddo gallu trigolion Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gysylltu â chyrff cyhoeddus yn y Sir:

*"Pwrpas y gwaith hwn fydd cynorthwyo sefydliadau cyhoeddus i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Drwy gydweithio gydag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol bydd modd gosod safonau cyson ac eglur, a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr.*

*Bydd hefyd yn gyfrwng i gefnogi'r ddyletswydd fydd ar gyrff cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd nesaf i gydymffurfio efo'r Safonau Iaith a osodir arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn ategu'r gofynion fydd ynghlwm â'r fframwaith dilynol i Fwy na Geiriau."*

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cytuno i flaenoriaethu'r gwaith yma sy'n golygu y bydd y partneriaid allweddol yn cydweithio gyda ni i gyrraedd y nod. Bydd Uwch Reolwr o fewn y Cyngor yn arwain ar y gwaith ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

**I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol**

**Sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.**

Ail edrychwyd ar y diffiniad o'r prosiect ac mae'r Aelod Cabinet wedi cytuno ar y diffiniad diwygiedig isod:

*"Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd. Drwy ddefnyddio'r un dulliau i fesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg phobl ifanc, a chynllunio strategaeth fydd yn rhoi arweiniad clir i ysgolion uwchradd y sir ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth gobeithir gallu gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc.*

*Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd strategaeth wedi ei llunio a'i chymeradwyo bydd yn gosod cynllun clir ar gyfer ehangu defnydd o'r we iaith a chynllunio ymyrraeth ar sail ei ganfyddiadau."*

Mae 12 ysgol uwchradd wedi cytuno i gymryd rhan yn y prosiect a chynhaliwyd cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn yr hydref. Erbyn hyn rydym wedi defnyddio dull safonol y we iaith i osod gwaelodlin ar gyfer y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg disgyblion blwyddyn 7 ysgolion uwchradd y Sir.

Mae'r cynnydd a amlinellir uchod yn unol â'r rhaglen waith ar gyfer y prosiect a ni ragwelir unrhyw broblemau yn cyflawni'r hyn a nodir ar gyfer 2015-16.

**I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd**

**i) Ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.**

**ii) Cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir.**

Erbyn hyn fe ddylem fod mewn sefyllfa lle'r oeddem wedi cydweithio gydag un adran i weithredu peilot o'r awdit. Fodd bynnag, yn y cyfamser rydym wedi ail edrych ar y tasgau a'r amserlen gysylltiedig ar gyfer y prosiect ac wedi gwneud rhywfaint o addasiadau.

O ganlyniad, rydym mewn sefyllfa lle mae cam cyntaf yr awdit wedi ei gwblhau gyda holiadur wedi ei gylchredeg i holl reolwyr y Cyngor er mwyn gosod gwaelodlin o ddefnydd y Gymraeg yn y Cyngor. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi ar hyn o bryd er mwyn adnabod meysydd gweithredu pellach a fydd yn rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer y Cyngor fydd yn ei le erbyn Mawrth 2016.

## 4.5 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

**C3 Ymgysylltu**

**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor. Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.**

Mae trefn o logio gweithgareddau ymgysylltu'r Cyngor wedi ei sefydlu ac mae gwaith wedi digwydd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i hwyluso gweithgareddau ymgysylltu. Yn y cyfamser, mae cytundeb wedi ei sicrhau ar sut i ymestyn y defnydd o wefannau cymdeithasol.

Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd' ar y toriadau arfaethedig dros y misoedd diwethaf a arweiniodd at dros 2,000 o ymatebion. Mae'r cynnydd a amlinellir uchod yn golygu ein bod yn debygol o gyflawni'r hyn a nodwyd ar gyfer y prosiect yn 2015-16.

**C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad. Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.**

Mae sesiynau Colegau Rheolwyr Adrannol wedi eu cynnal hefo'r rhan fwyaf o adrannau ac maent wedi dechrau gweithredu'r gyfundrefn berfformiad newydd gan adnabod pwrpasau a mesurau sy'n cyd-fynd ac egwyddorion Ffordd Gwynedd.

Rydym yn parhau i ddatblygu hyfforddiant yn y maes i weithwyr er ein bod wedi nodi y byddai'r modiwl hyfforddiant yn ei le erbyn hyn. Yn y cyfamser, mae nifer o aelodau'r Cabinet wedi nodi y byddai'n ddefnyddiol cynnal sesiwn hyfforddiant ar fonitro perfformiad ac o ganlyniad byddwn yn gweithredu ar hyn unwaith y bydd y gwaith ar y toriadau wedi ei gwblhau.

**C8 Llywodraethu gwybodaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo.**

Mae'r holl gerrig milltir ar gyfer y prosiect oedd i'w cyflawni erbyn hyn wedi eu cyflawni a'r cynnydd yn unol â'r disgwyl. Rydym wedi cynnal rhai sesiynau hyfforddi gyda thimau a siarad gyda rheolwyr unigol i gyfleu iddynt beth yw eu cyfrifoldebau yn hyn o beth.

Mae polisi diogelu data wedi ei gynnwys fel rhan o'r Ganolfan Bolisi sydd wedi ei lansio i'w weithwyr gan y Cyngor ac mae'r modiwl e-ddysgu wedi ei baratoi a'i gyflwyno i staff dwy adran. Yn ogystal, defnyddir y drefn archwilio mewnol, lle bo modd, fel modd o wirio cydymffurfiaeth gyda'r Polisi Diogelu Data. Mae meddalwedd marcio e-byst hefyd wedi ei brynu a bydd yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

**C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd yn arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.**

Mae swyddog ychwanegol wedi ei phenodi i weithio ar y prosiect a chytundeb wedi ei sicrhau i ryddhau tri uwch reolwr. Yn y cyfamser mae gwaith wedi mynd rhagddo i asesu buddion a gwersi i'w dysgu o'r adolygiadau sydd eisoes ar waith ac mae adolygiadau wedi cychwyn yn yr Adran Addysg ac Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r datblygiadau sydd wedi bod yn yr adolygiadau sydd wedi eu cynnal hyd yma.

**C2 Rhaglen datblygu arweinwyr**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.**

Cynhaliwyd y cylch cyntaf o'r drefn gwerthuso newydd hefo'r mwyafrif o aelodau'r Tîm Rheoli a'r penaethiaid dros yr wythnosau diwethaf gyda dau gyfweliad pellach yn digwydd yn ddiweddarach y mis hwn. Yn ogystal, mae'r ymarferiad 360 (derbyn adborth oddi wrth aelodau o gylch gwaith uniongyrchol gweithiwr) wedi ei lunio a'i gynnal a bydd y canlyniadau yn cael eu bwydo yn ôl i'r unigolion yn ystod mis Chwefror ac i ail gyfarfod gwerthuso yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Nid yw'r trefniant i adolygu anghenion datblygol aelodau'r Cabinet wedi digwydd eto a gallai hyn achosi llithriad bychan yn yr amserlen ar gyfer sefydlu a chynnal "Action Learning Sets" sy'n seiliedig ar y casgliadau o'r holl adborth a'r adolygiadau y cyfeirir tuag atynt. Er hyn rhagwelir y byddwn yn gallu cyflawni mwyafrif y gweithgareddau a nodwyd ar gyfer y prosiect yn 2015-16.

Mae trefniadau i roi cyfle i aelodau'r Cabinet adolygu'r drefn werthuso mewn sesiwn anffurfiol ar y gweill.

**C5 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth**

**Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol.**

Bu llithriad yn yr amserlen ar gyfer cyflawni rhai o'r gweithgareddau oherwydd bod yna gwestiwn ynglŷn â'r sylfaen dechnegol i'w defnyddio. O ganlyniad, nid ydym mewn sefyllfa lle mae achos busnes wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo i gyfuno'r sianeli cyswllt ac nid oes tîm wedi ei sefydlu i arwain y gwaith fel yr amlinellwyd yn yr amserlen wreiddiol.

Nodir fod gwaith pellach wedi ei gomisiynu gan yr Aelod Cabinet i edrych ar y sylfaen dechnegol i'w defnyddio a disgwylir ymateb i'r gwaith hynny cyn gallu dod ag argymhelliad ger bron y Cabinet. Yn ogystal, oherwydd y llithriad, mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect newydd gynnig amserlen ddiwygiedig ar gyfer y prosiect yn ei gyfanrwydd gan sicrhau mai anghenion cwsmeriaid sy'n gyrru'r broses.

**C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

**Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod erbyn diwedd Mawrth 2016.**

Mae drafft o'r strategaeth eisoes wedi ei llunio ond roedd yr Aelod Cabinet yn awyddus i roi sylw penodol i beth yw'r prif faterion sydd angen sylw, sut i'w cyfarch a'r adnoddau fydd eu hangen.

O ganlyniad i hyn mae rhaglen waith ddiwygiedig wedi ei chytuno ac mae cynnydd y gweithgareddau yn unol â'r amserlen gyda'r strategaeth wedi ei hadolygu a'i rhannu hefo'r Grŵp Llywodraethu. Yn dilyn hyn bydd trefniadau yn cael eu gwneud i dderbyn adborth gan y Grŵp Rheoli a Thimau Rheoli Adrannol cyn cyflwyno'r strategaeth yn ffurfiol i'r Cabinet ar gyfer ei mabwysiadu ym mis Mawrth.

**C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS o fewn o leiaf pum adran erbyn diwedd 2017, er mwyn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.**
Erbyn hyn fe ddylem fod mewn sefyllfa lle'r ydym wedi datblygu ac adeiladu system ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electronig ac wedi trosglwyddo'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ddefnyddio'r system.

Mae'r system wedi ei datblygu a'i hadeiladu gyda'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol yn y broses o drosglwyddo i'r system erbyn diwedd Chwefror â'r Adran Economi a Chymuned yn dilyn cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rydym hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gyflymu gwireddu'r buddion sydd ynghlwm â'r prosiect.

## 4.6 Cynllunio Ariannol

Y Cynghorydd Peredur Jenkins
**CA1 Gwireddu arbedion**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd o £13.6m sydd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyfundrefn arbedion ynghyd ag unrhyw arbedion pellach a adnabyddir.**
Nodir fod achosion ymhle mae pryderon wedi eu hamlygu a mae'r Aelod Cabinet Adnoddau wedi cytuno i gadw golwg ar y sefyllfa a bydd yn adrodd yn ôl os cyfyd problem go iawn.

Rhagwelir llithriad o tua £700,000 yng nghynlluniau arbedion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn erbyn targed o £1,855,652. Mae'r pennaeth wedi adrodd y byddai'n heriol iawn i gau'r bwlch yn gyfan gwbl eleni ond fod yr amcangyfrif yn geidwadol hyd yn hyn. Mae'r pennaeth a'r Aelod Cabinet Gofal yn parhau i ddatblygu cynlluniau newydd i gyfarch y bwlch ac yn ceisio cefnogi'r prosiectau unigol hynny sydd angen mwy o gefnogaeth o ran yr amserlen gwireddu arbedion. Cytunwyd y bydd yr aelodau Cabinet perthnasol yn cadw golwg manwl ar y datblygiadau yn ystod y misoedd nesaf.

**CA2 Cytundeb Canlyniadau**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod y Cyngor yn gallu hawlio'r swm llawn o £1.3m sydd ar gael yn 2014-15 ac 2015-16 am gyflawni canlyniadau sydd wedi eu cytuno gyda'r Llywodraeth.**

Mae adroddiad ar berfformiad y Cyngor yn 2014-15 wedi ei baratoi a'i gyflwyno i'r Llywodraeth sy'n cadarnhau ein bod wedi cyrraedd neu wneud yn well na'r uchelgais sy'n golygu y dylem dderbyn taliad o £1.3m. Disgwylir cadarnhad o'r taliad gan y Llywodraeth erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015-16.

**CA3 Toriadau**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu y toriadau y gellir eu gwireddu er mwyn cau'r bwlch ariannol fydd ar ôl yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol wedi i ni gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd.**

Mae cynnydd y prosiect yn unol â'r rhaglen waith a'r cerrig milltir gyda gwaith wedi ei gynnal i adnabod toriadau posibl, trafodaethau wedi eu cynnal hefo cynghorwyr ac aelodau staff ynghylch y rheini ac ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd' wedi ei gynnal.

Derbyniwyd dros 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn y cyfamser mae gwaith wedi mynd rhagddo i ddadansoddi a chrynhoi'r wybodaeth a dderbyniwyd. Cynhaliwyd gweithdai i drafod y toriadau ar gyfer yr holl aelodau rhwng 15 a 22 Ionawr gan adrodd ar y canlyniadau i'r Cabinet yn ffurfiol ar 16 Chwefror ac i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad ar 3 Mawrth.

**CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**

**Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.**

Mae gwaith i edrych ar Achos Strategol Model Darparu amgen ar gyfer Gofal ac Achos Busnes Amlinellol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn parhau i fynd yn eu blaenau a bydd yr Aelod Cabinet yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar y canfyddiadau pan fydd y gwaith yn aeddfed.

Bydd yr Aelod Cabinet yn adrodd i'r Cabinet ar arbedion effeithlonrwydd pellach fel rhan o'r adroddiad ar y Strategaeth Ariannol ym mis Chwefror.

**Materion eraill sydd angen tynnu sylw atynt – Cynllunio Ariannol**

**Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2016-17**
Mae'r wybodaeth ynghylch setliad 2016-17 (dros dro) ar gyfer Gwynedd yn awgrymu y bydd ein grant yn gostwng -1.5% (£2.6m) ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau. Wrth gwrs, mae gostyngiad -1.5% yn eithaf tebyg i'r -2% roeddem ni wedi ei ddarogan (gwahaniaeth o £900k i'r gwell o'n cynlluniau ni). O ganlyniad, tra nodir nad yw toriad grant o £2.6m yn newyddion da, nac yn sefyllfa hawdd, mae ein rhagdybiaethau ni ynghylch lefel y toriad wedi bod yn gymharol agos i'w lle ac mae Strategaeth Her Gwynedd ar drac i ddarganfod y lefel o arbedion a thoriadau bydd eu angen.

**Strategaeth Ariannol 2016-17 – 2019-20**
Bydd manylder y Strategaeth Ariannol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 16 Chwefror. Yn gryno, ar sail cynnydd blynyddol o 3.5% yn y Dreth Cyngor, bydd raid edrych am doriadau o £5m dros y ddwy flynedd nesaf.

**5.0 Mesurau**

**5.1 Gwaith datblygol** – mae'r rhan fwyaf o dimau gwasanaeth y Cyngor wedi adolygu eu pwrpas i roi ffocws ar y dinesydd ac wedi adnabod mesurau addas i'r pwrpas, er mae rhai mesurau'n parhau i gael eu datblygu. Rhestrir y prif faterion isod, gyda rhestr gyflawn o fesurau sy'n berthnasol i'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 2.

**5.2 Oedolion, Iechyd a Llesiant**
Y Cynghorydd Gareth Roberts
Mae mesurau y maes Gofal yn awgrymu perfformiad da ar y cyfan, ond mae diffygion cywirdeb data rhai mesurau yn destun pryder.

**SCA/019 - O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, canran lle mae perygl wedi ei reoli -** Mae'n debygol iawn mai problemau o ran glendid y data yw'r rheswm dros berfformiad isel yn Chwarter 2, ond heb wirio hyn ni ellir bod yn hollol siŵr. Mae angen rhoi sylw i hyn mor fuan â phosib gan fod y mesurydd yn ffordd o fesur sut yr ydym yn ymdrin â rheoli risgiau i'n trigolion mwyaf bregus.

## 5.3 Plant a Phobl Ifanc

Y Cynghorydd Gareth Thomas

Mae canlyniadau haf 2015 bellach wedi'u cyhoeddi, a gellir nodi fod canlyniadau Gwynedd eleni yn gadarnhaol yn enwedig yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, lle rydym y gorau ar lefel Cymru ar dri allan o'r pum mesur. Mae'r data yma yn dangos gwaith caled sydd wedi digwydd i godi a chysoni safonau addysg Gwynedd. Gweler **Atodiad 2** sy'n nodi'r mesurau Adran Addysg.

Mae'r Aelod Cabinet Addysg yn awyddus i dynnu sylw i'r llwyddiannau canlynol o ran perfformiad disgyblion 15 oed mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau eraill:

- **DANS07 Canran o ddisgyblion mewn ysgolion a gyflawnodd trothwy Lefel 1** (dysgu cyfwerth a phump TGAU graddau D i G) – 97.99% Gwynedd sydd ar y brig ar draws Cymru gyda'r mesur yma
- **EDU/017 Canran o ddisgyblion sydd wedi cyrraedd trothwy Lefel 2+** (dysgu cyfwerth a phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg) – 63.3%. Mae hyn yn rhoi Gwynedd yn y pedwerydd safle ar draws Cymru, ond yn y safle cyntaf ar draws Gogledd Cymru
- **DANS06 Canran o ddysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd** (sef Dangosydd Pynciau Craidd) – 62.4%. Mae hyn yn rhoi Gwynedd yn y trydydd safle ar lefel cenedlaethol ac yn y safle cyntaf ar lefel Gogledd Cymru
- **Sgôr pwyntiau wedi'i gapio** – Cyfartaledd pwyntiau'r wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio – Gwynedd wedi dod i'r brig yn genedlaethol gyda'r mesur yma.

O ystyried a dadansoddi'r canlyniadau hyn, mae'r Adran Addysg yn cydnabod bod angen sylw pellach i rai meysydd, megis Saesneg a Mathemateg. Mewn ymgais i ymateb i hyn, rydym yn awyddus i sicrhau bod pob ysgol yn cael mynediad i arweiniad gan arbenigwyr pwnc mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4).

Yn ogystal, mae'r adran wedi dod â chynllun gweithredu at ei gilydd sy'n canolbwyntio ar:

- Cwblhau arfarniad llawn o CA4 gyda data aeddfetach a chywirach
- Sicrhau bod lefel priodol o her yn nhargedau'r rhanbarth, awdurdod neu ysgolion unigol
- Sicrhau bod adrannau craidd sy'n tanberfformio neu â pherfformiad cyfforddus yn llunio ac yn gweithredu rhaglen waith ar gyfer gyrru gwelliannau

Y Cynghorydd Mair Rowlands

Ceir copi o holl fesurau gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Hamdden ac Ieuenctid yn Atodiad 2. Mae'r gwaith o ddatblygu pwrpas a mesurau ar gyfer y ddwy adran yn parhau.

**Diogelu 7 – Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn.** Ar ddiwedd chwarter 2, 69% yw'r canran lle bu clywed llais/barn plentyn. Ar hyn o bryd ceir problem o ran ansawdd y data sy'n cael ei dderbyn, oherwydd anghysondeb gyda diffiniad ar lais/barn plentyn. Mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn i'r adran ail edrych ar hyn. Yn dilyn adolygiad penderfynwyd eithrio holl blant o dan 7 oed er mwyn sicrhau cysondeb gydag adrodd llais/barn plentyn.

### 5.4 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

**CD6.01 Canran o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod –** Nodir fod y perfformiad i'w weld yn gwaethygu a thrafodwyd os yw hyn yn derbyn blaenoriaeth gan adrannau. Mae'r broblem yn fwy amlwg o fewn rhai adrannau na'i gilydd ond mae'r Aelod Cabinet Adnoddau wedi gofyn i'r Adran Gyllid gysylltu hefo'r holl benaethiaid er mwyn eu hannog i roi sylw i hyn ac i gymryd perchnogaeth. Cedwir golwg ar y sefyllfa gan adrodd yn ôl os nad yw'r sefyllfa yn gwella.

**CHR/002 – Nifer o ddyddiadau absenoldeb salwch y pen –** Edrychwyd ar y ffigwr i ddiwedd Hydref a'r rhesymau dros yr absenoldeb. Nodwyd fod y sefyllfa yn dueddol o fod yn waeth o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac athrawon a staff ysgolion. Nodwyd fod anghysondebau yn bodoli o ran trefniadau rheoli absenoldebau ond bod gwaith i wella'r trefniadau hynny wedi gwella'r sefyllfa, yn enwedig yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac o ganlyniad mae'r Aelod Cabinet wedi cytuno i gadw golwg ar y sefyllfa.

---

## 6.0 Casgliad

6.1 Ar y cyfan mae'r gwaith ar brosiectau strategol yn symud ymlaen yn dda, gyda cherrig milltir wedi eu gosod er mwyn ceisio cael y gorau i bobl Gwynedd.

6.2 Mae'r trefniadau rheoli perfformiad newydd yn aeddfedu, ond mae gwaith pellach angen eu gwneud mewn rhai meysydd.

6.3 Cwblhawyd Ymgynghoriad Her Gwynedd yn llwyddiannus ac felly mae pobl Gwynedd wedi cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau’r toriadau. Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i bobl Gwynedd, holl aelodau a staff y Cyngor am eu cydweithrediad yn ystod y cyfnod anodd yma inni fel Cyngor.

**7.0 Argymhelliad**

Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Dim i’w ychwanegu i’r adroddiad hwn sy’n huna-esboniadol.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.